**Y Pwyllgor Datblygu Economaidd** **EDC 06-02 (draft min)**

**COFNODION**

**Dyddiad;** **20 Mawrth, 02**
**Amser:** **2.00 – 5.30pm**
**Lleoliad:** **Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd**

**Yn bresennol**

| **Aelodau** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| Chris Chapman | Cwm Cynon |
| Andrew Davies (y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd) | Gorllewin Abertawe |
| Ron Davies | Caerffili |
| Mike German | Dwyrain De Cymru |
| Christine Gwyther (Cadeirydd) | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Alison Halford | Delyn |
| Elin Jones | Ceredigion |
| Dafydd Wigley | Caernarfon |
| Phil Williams | Dwyrain De Cymru |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| John Clarke | Prif Weithredwr, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru |
| David Pritchard | Cyfarwyddwr, Yr Adran Datblygu Economaidd |
| Phil Gray | Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru |
| Caroline Turner | Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru |
| Les Opperman | Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru |
| Emyr Roberts | EPD |
| Mike Phelps | EcAD |
| Mike Clancy | ICM |

**Yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Bo Lerenius | Prif Weithredwr Grwp, ABP Holdings PLC |
| Budha Majumdar | Cyfarwyddwr Porthladd De Cymru, ABP Holdings PLC |

| | |
|---|---|
| Phil Williams | Cyfarwyddwr Eiddo Grwp, ABP Holdings PLC |

**Ysgrifenyddiaeth**

| | |
|---|---|
| John Grimes | Clerc |
| Sian Wilkins | Dirprwy Glerc |

**Ymddiheuriadau a Dirprwyon**

Roedd Elin Jones yn dirprwyo dros Brian Hancock a oedd yn anfon ei ymddiheuriadau.

**Eitem 1: Sylwadau agoriadol y Cadeirydd.**

1. Datganwyd buddiant gan Christine Gwyther gan fod ei chymar â busnes ymgynghorol a chan Dafydd Wigley sy'n gyfarwyddwr ar gwmni bach.

**Eitem 2: Adroddiad y Gweinidog**

1. Rhoddodd y Gweinidog adroddiad diweddaru llafar byr; mae'r manylion ynghlwm wrth ei adroddiad.
2. Yn ystod y drafodaeth cyfeiriodd sawl aelod at y ffaith fod Ffigurau'r Arolwg Gweithlu diweddar yn awgrymu bod Cynnyrch Mewnwladol Crynswth Cymru yn gostwng. Dangosai cymariaethau rhanbarthol gynnydd uwch mewn segurdod economaidd yng Nghymru nag yn y rhan fwyaf o ranbarthau eraill y DU. Holasant a oedd y dangosyddion yn dangos bod angen addasu'r strategaeth a'r targedau yn Cymru ar ei Hennill.
3. Dywedodd y Gweinidog ei fod yn derbyn bod segurdod economaidd ar gynnydd yng Nghymru yn ôl pob golwg. Dywedodd fod Amcan 1 yn dyst i'r ffaith fod Cymru yn wlad dlawd a theimlai ei bod yn rhy fuan i wneud penderfyniadau ynglyn â'r effaith yr oedd polisïau yn Cymru ar ei Hennill yn ei chael ar y Cynnyrch Mewnwladol Crynswth. Dywedodd mai'r adeg i adolygu'r targedau fyddai pan fydd yn rhoi ei adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor, a'r Cynulliad, ar y cynnydd a wnaed gyda Cymru ar ei Hennill. Ychwanegodd fod Cymru wedi dod drwy'r dirywiad yn economi'r DU yn dda iawn a bod lefel gyfredol y ceisiadau am grantiau RSA yn cadarnhau hyn.
4. Mynegwyd pryder gan yr Aelodau ynglyn â'r cyhoeddiad annisgwyl fod Manweb yn torri 500 o swyddi. Cadarnhaodd y Gweinidog fod swyddogion mewn cysylltiadau â'r cwmni ond ei bod yn rhy gynnar i ddweud a gâi unrhyw swyddi eu colli yng Nghymru. Cytunodd i ddarparu gwybodaeth bellach yn y cyfarfod nesaf. **[Gweithredu: y Gweinidog DE]**
5. Gan gyfeirio at Gynllun Busnes y WDA, cwestiynodd rhai Aelodau y targedau gan ddweud eu bod yn ôl pob golwg yn gwrthdaro â pholisi'r Llywodraeth ar dargedau

rhanbarthol. Dywedodd y Gweinidog ei fod yn fodlon â'r targedau a oedd wedi'u cynnwys yn y cynllun. Dywedodd fod gan y WDA strwythur rhanbarthol a bod yn rhaid iddynt wahanu rhai targedau gweithredol yn ardaloedd. Roedd y cynllun hefyd yn cynnwys targedau i Gymru gyfan. Cadarnhaodd y swyddogion y byddir yn adrodd ar y perfformiad yn erbyn y targedau yn adroddiad blynyddol y WDA, a byddai'r Pwyllgor yn cael cyfle i drafod hwnnw yn fwy manwl.

6. Holodd aelod a oedd y WDA wedi penderfynu tynnu allan o Gronfa Ewropeaidd Cymru, ond dywedodd y Gweinidog nad oedd yn ymwybodol o unrhyw benderfyniad o'r fath ac na fyddai'r WDA yn gweithredu heb ymgynghori â'r Cynulliad. Cytunodd i wneud ymholiadau pellach ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor y diwrnod canlynol drwy'r Clerc. **[Gweithredu: y Gweinidog DE – nodyn wedi'i anfon]**
7. Anogodd Aelod y Gweinidog i ailystyried ysgrifennu at Awdurdod Harbwr Caerdydd ynglyn â'r diffyg cynrychiolaeth o Gyngor Bro Morgannwg. Dywedodd y Gweinidog ei fod yn teimlo mai priodol fyddai disgwyl am ymateb i'r llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor, ond os na fyddai'r mater wedi'i ddatrys byddai yn codi'r mater. Galwodd rhai Aelodau hefyd am i'r Pwyllgor gael mwy o rôl yn manylu ar waith Awdurdod yr Harbwr, gan nodi mai unig rôl y Pwyllgor Archwilio yw archwilio gwariant y gorffennol. Teimlent fod angen i'r Pwyllgor archwilio'r cynlluniau gwario a datblygu ar gyfer y dyfodol.
8. Croesawai'r Aelodau y newyddion fod International Rectifier wedi caffael rhai o asedau ESM ond, er gwaethaf hyn, nodwyd y byddai colled net o ryw 500 o swyddi ar hyn o bryd. Roeddynt yn pryderu hefyd na ddeuai darpariaeth newydd i gymryd lle'r swyddogaeth Ymchwil a Datblygu a gollwyd yn ESM. Cadarnhaodd swyddogion fod International Rectifier wedi ei ddenu i'r safle gan y gwaith penodol y bu ESM yn ei wneud at dechnoleg tafelli 8-modfedd, a oedd yn wahanol iawn i'r hyn a wneid yn Abertawe. Dywedodd y Gweinidog i Gasnewydd fod yn fwy deniadol i'r cwmni nag ehangu eu safle yn Abertawe oherwydd y cyfleusterau a oedd yno'n barod.
9. O ran dyfodol Corus yng Nghymru, dywedodd y Gweinidog fod y cwmni yn dechrau gwneud elw eto a'i fod yn hyderus iawn ynglyn â dyfodol cynhyrchu dur yng ngwaith Port Talbot.

**Eitem 3: Adroddiad Chwarterol ar y Cronfeydd Strwythurol**

1. Agorodd Chris Chapman y drafodaeth drwy roi adroddiad llafar ar hynt y Rhaglen Amcan 1.
2. Rhoddodd John Griffiths adroddiad llafar ar hynt y Rhaglen Amcan 3 yn absenoldeb Kirsty Williams, nad oedd ar gael. Mae copïau o'r ddau adroddiad ynghlwm wrth bapur EDC 06-02(p2) European Structural Funds Programmes: Update.
3. Er bod yr Aelodau'n cydnabod bod perfformiad y rhaglenni wedi gwella, roedd yna rywfaint o ‘adennill tir’ yn dal i fynd rhagddo. Arweiniai hyn at ddau ofn: yn gyntaf,

y perygl y câi arian ei golli am na fyddai wedi ei rwymo; yn ail, y byddai gwariant sydd wedi ei ddal yn ôl yn arwain at ragor o alw am gyllid cyfatebol a lefelau uwch na'r hyn y cyllidebwyd ar ei gyfer yn barod.

4. Dywedodd y swyddogion fod y rhagolygon i'r cronfeydd mwy yn dangos nad oedd y bwlch mor fawr ag y gellid tybio o'r Adroddiad Diweddaru a phwysleisiasant yr ymdrechion yr oeddynt yn eu gwneud i sicrhau bod arian a thaliadau yn cael eu rhyddhau cyn gyflymed â phosibl. Nodasant fod y sefyllfa yn y cronfeydd llai yn cael ei monitro'n arbennig o ofalus gan y gallai llithriad ar un neu ddau o brosiectau mawr gael effaith anghymesur. Cytunai'r Gweinidog fod sicrhau bod cymaint â phosibl o gyllid yn cael ei dynnu i lawr yn flaenoriaeth a chadarnhaodd fod adnoddau digonol ar gael o safbwynt cyllid cyfatebol.
5. Holodd yr Aelodau a oes modd cario tanwariant ymlaen a throsglwyddo cyllid rhwng blaenoriaethau/mesurau fel ei fod yn cyfateb yn fwy agos i'r galw. Nododd y swyddogion fod modd gwneud hyn i ryw raddau ond ei fod yn fater y mae'n rhaid ei ystyried yn ofalus ac mai'r ffordd hawsaf o'i gyflawni yw drwy'r adolygiad canol tymor. Mynegwyd pryder gan yr Aelodau y gallai'r broses, pe bai'n rhy araf, achosi i brosiectau llwyddiannus gael eu hatal tra nad oedd cyllid sydd ar gael yn rhywle arall yn cael ei ddefnyddio.
6. Holodd yr Aelodau ynglyn â phrosiectau sydd, er eu bod yn dod â budd i'r ardal Amcan 1, wedi eu lleoli eu hunain y tu allan i'r ardal – yn enwedig yng Nghaerdydd. Cyfeiriwyd at brosiectau y mae Prifysgol Caerdydd, y WDA a'r Bwrdd Croeso yn ymgymryd â nhw. Tra'n cydnabod y gallai'r rhain fod o fudd gwirioneddol i'r ardal Amcan 1 ac y dylid eu hannog, teimlai'r Aelodau y dylai'r cyrff hyn anelu at wneud gwaith yn yr ardaloedd blaenoriaeth hefyd. Pe na châi hynny ei wneud, yna byddai prosiectau yn cael eu gweld fel cam pellach tuag at ganoli gweithgaredd a swyddi yng Nghaerdydd. Dywedodd y Gweinidog fod ganddo rywfaint o gydymdeimlad â'r pwynt hwn a chytunodd i ddarparu gwybodaeth i'r Aelodau am symiau mawr sy'n cael eu gwario yng Nghaerdydd gan gyrff sector cyhoeddus o dan y Rhaglen Amcan 1. **[Gweithredu: y Gweinidog DE]**
7. Mynegwyd pryder fod y Pwyllgor Rheoli Prosiectau Amcan 1 wedi sefydlu is-bwyllgor i wneud gwaith 'monitro' oherwydd onid rôl y Pwyllgor ei hun oedd hynny. Gwnaethpwyd y pwynt fod y Pwyllgor Rheoli Prosiectau wedi cytuno'n unfrydol i sefydlu'r is-bwyllgor hwn ac mai nid bod yn fiwrocrataidd oedd y diben wrth wneud hynny. Byddai'n gallu treulio mwy o amser ar faterion cymhleth a rhoi dadansoddiadau mwy manwl i'r Pwyllgor a thrwy hynny byddid yn cyflymu trafodaethau'r Pwyllgor.
8. Soniodd John Clarke am y gronfa ddata newydd, well, sy'n cael ei sefydlu yn Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a dywedodd y byddai'n gallu darparu gwybodaeth fanwl am brosiectau ar lefel leol. Dywedodd y byddai'n bosibl darparu mapiau yn manylu ar ble yr oedd arian Amcan 1 wedi ei wario unwaith y byddai'r gwaith hwn wedi ei gwblhau.
9. Mynegwyd pryder fod arian a drosglwyddwyd i Finance Wales yn cyfrif fel

gwariant pan gâi ei drosglwyddo ac nid pan fyddai Finance Wales wedi ei ddyrannu i gwmnïau. Cytunwyd y dylai'r Aelodau gael cyflwyniad ar y ffordd y mae Finance Wales yn gweithredu. **[Gweithredu: Clerc]**

**Eitem 4- Grwp Gorchwyl a Gorffen y Grant Cefnogi Mentrau**

1. Oherwydd prinder amser awgrymodd y Cadeirydd fod yr eitem hon i gael ei gohirio tan y cyfarfod nesaf.
2. Roedd yr Aelodau'n pryderu bod Grant Buddsoddi'r Cynulliad i gael ei lansio ar 27 Mawrth a hyd yn oed pe bai wedi cael ei drafod yn y cyfarfod, ni fyddai hynny wedi rhoi digon o amser i sylwadau'r Pwyllgor gael eu cymryd i ystyriaeth. Mynegasant bryder mawr ynglyn â phriod rôl y Pwyllgor mewn datblygu polisi a gofynnodd yr Aelodau am i Lywodraeth y Cynulliad gydnabod hyn yn ei weithredoedd. Gan gydnabod pryderon yr Aelodau, cadarnhaodd y Gweinidog ei fod yn barod i ystyried sylwadau a gâi eu gwneud yn uniongyrchol iddo gan Aelodau y tu allan i'r Pwyllgor ac yn y cyfarfod nesaf.

**Eitem 5 – Porthladdoedd Cymru**

1. Croesawodd y Cadeirydd yr ymwelwyr o ABP Holdings Plc a gwahoddodd Bo Lerenius i amlygu'r pwyntiau allweddol a oedd wedi'u cynnwys yn y papur a ddarparwyd ganddo ar gyfer y Pwyllgor.
2. Yn ychwanegol at y rhain dywedodd Mr Lerenius hefyd fod ABP yn gymharol optimistaidd ar gyfer 2002 a dywedodd eu bod wedi ymrwymo'n llwyr, yn strategol, i'w busnes yng Nghymru.
3. Yn y drafodaeth gyffredinol holodd Aelod ynglyn â'r diffyg datblygu yn ôl pob golwg yn Nociau Casnewydd a'r sibrydion fod ABP yn ceisio arallgyfeirio defnydd y tir yno. Cadarnhaodd ABP eu bod yn canolbwyntio'n fawr ar Gasnewydd a bod mwy o fusnes newydd wedi ei ddenu yno dros y ddwy flynedd ddiwethaf nag mewn mannau eraill yng Nghymru. Ychwanegasant nad oes rhaid buddsoddi bob amser er mwyn denu busnes newydd a bod buddsoddiadau yn tueddu i fod ar gyfer cwsmer neilltuol, ynghlwm wrth gontract hirdymor. Dywedasant y byddai twf pellach dros y 2-3 blynedd nesaf yn dibynnu ar fuddsoddi yn seilwaith y rheilffyrdd ac mewn warysau.
4. Er gwaethaf problemau y llynedd gyda Corus a chlwy'r traed a'r genau dywedodd ABP iddynt ddal i gyflawni twf o 8.5% a'u bod yn hyderus fod pethau'n gwella, a bod yr effeithiau gwaethaf yn gwastatáu erbyn hyn. Cyfeiriasant at y rhan sydd ganddynt i'w chwarae mewn economïau lleol ac roeddynt yn siomedig nad oedd Bwrdeistref Sirol Casnewydd wedi sôn am bwysigrwydd y Dociau yn eu Cynllun Datblygu Economaidd.
5. O ran seilwaith, dywedasant fod cyswllt hwylus rhwng pob un o'u porthladdoedd yng Nghymru â'r M4, er bod yna gyfyngiadau ar yr M4 ei hun yn aml. Dywedasant

fod y cysylltiadau rheilffordd yn dderbyniol yn gyffredinol ond tynasant sylw at y diffyg buddsoddi yn seilwaith y rheilffyrdd. Roeddynt hefyd yn datblygu terfynellau aml-fodd i gysylltu'r ffyrdd a'r rheilffyrdd ar eu safleoedd.

6. Er mai'r porthladdoedd oedd eu busnes craidd, cyfeiriasant at y perthnasau rhagorol sydd ganddynt yng Nghymru gyda'r WDA, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Awdurdodau Lleol o safbwynt datblygu eiddo. Codwyd cwestiynau gan yr Aelodau ynglyn â chefnogaeth ABP i Faes Awyr Rhyngwladol Caerdydd, ond nododd Phil Williams y cysylltiad pwysig â datblygu eiddo. Codwyd y cwestiwn gan yr Aelodau a ddylai'r Cynulliad noddi gwasanaethau rhestredig yn y maes awyr. Cytunodd y Gweinidog i ymchwilio ymhellach i'r mater ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor. **[Gweithredu: y Gweinidog DE]**
7. Dywedodd Aelod fod adroddiadau yn awgrymu nad oes darpariaeth dros ben ar ôl mwyach ym mhorthladdoedd amlwytho y DU. Cadarnhaodd ABP fod hwn yn fater cenedlaethol a bod tri phrosiect newydd mawr yn cael ei awgrymu yn Ne Ddwyrain Lloegr, gan gynnwys un gan ABP. Dywedasant na fyddai'n bosibl datblygu yn Ne Cymru gan fod angen porthladdoedd môr dwfn a bod yn rhaid i'r rhain fod yn agos at forlwybrau môr dwfn. Byddai'r cynnydd mewn porthladdoedd môr dwfn, fodd bynnag, yn cael effaith gadarnhaol ar fusnes teithiau môr byr.
8. Dywedodd ABP fod canran uchel o gludiant nwyddau yn dibynnu ar y rheilffyrdd a bod y defnydd hwnnw yn cynyddu yn wyneb y cosbau cynyddol am gludo nwyddau ar y ffyrdd. Dywedasant ei bod yn bwysig buddsoddi er mwyn sefydlu cysylltiadau y tu allan i'r porthladdoedd a galwasant ar y Cynulliad i weithio'n agos gyda darparwyr y rhwydwaith yn y cyswllt hwn.
9. Dywedodd y Gweinidog fod rôl y porthladdoedd yng Nghymru wedi cael ei hesgeuluso yn y gorffennol ac yn enwedig y rôl a chwaraeir ganddynt yn datblygu cysylltiadau masnachol gydag Iwerddon. Roedd yn falch fod cysylltiadau deinamig yn bodoli ar lefel sefydliadol rhwng ABP ac asiantaethau yng Nghymru.
10. Diolchodd y Cadeirydd i ABP am ddod i'r cyfarfod ac am gyfrannu at drafodaeth a fu mor llawn o wybodaeth.

**Eitem 6: Cofnodion Cyfarfodydd Blaenorol**

1. Cytunwyd bod Cofnodion 6 Mawrth yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**